

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

O fis Chwefror i fis Medi

Disgrifiad o'r modiwl

Mae *Mathemateg hanfodol 2* yn adeiladu ar y cysyniadau a'r technegau yn *Mathemateg hanfodol 1* (MST124) er mwyn darparu sail gyflawn ar gyfer astudiaethau mathemateg lefel uwch. Caiff myfyrwyr eu cyflwyno i amrywiaeth eang o bynciau diddorol a hanfodol, megis prawf, hafaliadau gwahaniaethol, mecaneg a mathemateg arwahanol. Byddant yn defnyddio meddalwedd fathemategol, ac yn dysgu sut i gysodi mathemateg. Bydd angen i fyfyrwyr feddu ar wybodaeth flaenorol am y deunydd yn MST124, yn enwedig calcwlws sylfaenol. Fel arall, os bydd ganddynt ddigon o amser i astudio a'u bod yn gallu trin algebra yn rhwydd iawn, gall myfyrwyr astudio MST124 ac MST125 gyda'i gilydd mewn blwyddyn – weler ein gwefan [MathsChoices](http://mathschoices.open.ac.uk) (mathschoices.open.ac.uk).

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd dda (neu gymhwyster cyfatebol) ym maes mathemateg a'r gallu i ddangos dealltwriaeth lwyr o'r rhan fwyaf o'r deunydd yn y modiwl a dangos y gallu i ddatblygu dealltwriaeth o weddill y deunydd yn gyflym
- y gallu i gefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau mathemategol a strategaethau astudio myfyrwyr â diddordebau a dyheadau gwahanol
- y parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
 - tiwtorialau ar-lein fel opsiwn amgen i sesiynau wyneb yn wyneb a, lle y bo'n briodol, farcio aseiniadau a gyflwynir yn electronig ar ffurf PDF, a gaiff eu marcio gan diwtoriaid, ar y sgrin
- y parodrwydd i ddefnyddio pecyn cyfrifiadurol mathemateg y modiwl
- diddordeb yn y cymwysiadau mathemategol a gaiff eu hastudio yn y modiwl
- gwybodaeth dda am o leiaf un o'r pecynnau cysodi mathemategol canlynol: LaTeX; LibreOffice; Word 2007 neu hwyrach
- cyfarpar a sgiliau TG priodol.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu pynciau mathemateg ar y lefel hon i oedolion neu fyfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd addysgol

Gwybodaeth ychwanegol

- Bydd rhai myfyrwyr yn astudio *Mathemateg hanfodol 1* (MST124) ochr yn ochr ag MST125. Bydd rhai myfyrwyr yn dechrau eu hastudiaethau yn Y Brifysgol Agored gyda'r modiwlau hyn, ond efallai y bydd myfyrwyr eraill wedi astudio *Darganfod mathemateg* (MU123) (neu ei ragflaenydd *Mathemateg agored* (MU120)) neu fodiwlau eraill yn gyntaf.
- Bydd MST125 yn cynnwys arholiad (a fydd yn cynnwys elfennau ysgrifenedig ac elfennau a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur) yn ogystal ag aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid ac a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur.
- Gan y bydd myfyrwyr ar y modiwl hwn yn gallu dewis cyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy'r system TMA/eTMA, bydd gofyn i chi

farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynwyd yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig. Efallai y bydd angen i chi hefyd farcio aseiniadau papur a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA). Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir rhywfaint o arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael pe byddech yn cael eich penodi i'r rôl.

- Mae'n bosibl y bydd union natur y cyfleusterau e-ddysgu a systemau'r Brifysgol i fonitro cynnydd myfyrwyr a delio ag aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn datblygu yn y dyfodol, a bydd angen i chi fod yn barod i addasu yn unol â hynny. Noder y bydd disgwyl i diwtoriaid ddefnyddio eu cyfarpar eu hunain ar gyfer pob agwedd ar e-ddysgu yn unol â pholisi'r Brifysgol.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4